## Iesu'n ymddangos i'r Saith Disgybl

**Darllen Ioan 21:1–25**

Dywed aml i ysgolhaig fod y bennod hon yn atodiad i Efengyl Ioan. Ond nid yw hynny'n tynnu dim oddi wrth werth a chynnwys y bennod hon sy'n epilog ardderchog. Mae'n amlwg fod y disgyblion wedi gadael y Ddinas Sanctaidd a dychwelyd i Galilea, ar ôl Gŵyl y Bara Croyw. A dyma Iesu yn ymddangos i'w ddisgyblion ger Llyn Tiberias (enw arall am Fôr Galilea). Yn ei gorff atgyfodedig ymddangosodd i'r saith disgybl oedd yn bresennol. Simon Pedr oedd y cyntaf oherwydd mai ef, er ei ymddygiad trist cyn y croeshoelio, oedd eu harweinydd answyddogol. Enwir Tomos wedyn, y gŵr a gâi drafferth i gredu, ond a argyhoeddwyd yn llwyr gan Iesu'r Atgyfodiad. Yna daw Nathanael, na chafodd ei enwi o gwbl ers pennod gyntaf Efengyl Ioan (Ioan 1:45-51) a deallwn ei fod ef yn hanu o Cana yn Galilea, lleoliad gwyrth gyntaf y Crist (gweler Ioan 2:1-11, 4:46-54). Yna enwir meibion Sebedeus. Dyma'r tro cyntaf i Ioan eu cyfarch felly ac mae hyn yn hynod o ddiddorol. Yn yr efengylau eraill portreadir Pedr a meibion Sebedeus, sef Iago ac Ioan, fel y tri disgybl a dderbyniodd gyfrinachau'r Gwaredwr. Ac mae'r tawelwch hwn wedi gorfodi rhai i'r syniad mai neb llai na Ioan ei hun yw'r 'disgybl annwyl'.

Mae'n amlwg fod y disgyblion wedi dychwelyd i Galilea gan fod ganddynt gymaint i'w ddweud wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau. Y dystiolaeth yw eu bod am ddychwelyd i'w hen oruchwylion fel pysgotwyr ar Fôr Galilea. Y rheswm pennaf oedd bod Iesu yn disgwyl iddynt fynd adref (gweler Marc 14: 28, 16:17), a bellach yr oeddent yn dystion o'r Atgyfodiad ac yn awyddus i gyfrannu at y Deyrnas trwy waith a thystiolaeth. Yr oeddent yn cyflawni'r dasg o ddwyn pobl o'r newydd i'r Deyrnas, sydd yn y byd ac eto allan o'r byd. Ac fel Apostolion, fe wnaeth y disgyblion weithredu yng nghwmni Iesu.

***D. Ben Rees***